


Wrth iddynt wneud cynnydd

O Smotyn i Smotyn



Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Symud o un smotyn i smotyn arall
- Symud o un man i'r llall gan ddefnyddio'r smotiau fel pe baent yn gerrig camu mewn afon
- Mynd â gwrthrychau gyda nhw, e.e. picnic a phethau ar gyfer y traeth
- Symud o un smotyn i'r llall gan ddilyn patrwm y maen nhw neu blentyn arall wedi'i gynllunio, e.e. coch, glas, gwyrdd, coch, glas, gwyrdd, neu gan ddefnyddio smotiau â rhifau arnynt, e.e. 1, 2, 3, 4, ...10, ac ati
- Symud o un smotyn i'r llall fel llwynogod, fel bod eu dwylo neu'u traed yn cyffwrdd â'r smotyn mewn gweithred ddringo lorweddol: llaw, llaw, troed, troed, ac ati
- Amcangyfrif faint o smotiau sydd eu hangen arnynt i symud dros bellterau byr

Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sialc
- Rhaffau sgipio
- Cylchoedd
- Matiau
- Gwrthrychau/bagiau i'w cario sy'n cynnwys balŵns
- Llyfr stori 'Y Parti ar y Traeth'

Cwestiynau

- Pa mor bell oddi wrth ei gilydd y gallwch chi osod y marcwyr a chadw eich cydbwysedd?
- Pa mor agos at ei gilydd y mae'n rhaid i'r smotiau fod pan fyddwch yn symud fel llwynogod?
- Ym mha ffyrdd eraill y gallwch chi deithio o smotyn i smotyn?
- P'un sydd hawsaf – cario un bag neu ddau fag? Pam, yn eich barn chi?
- Yn eich barn chi, faint o smotiau fydd eu hangen arnoch i deithio o'r lle hun i ben draw'r maes chwarae?

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cydbwysedd, ymwybyddiaeth o'r corff
- Cerdded, camau bach iawn, camau enfawr, llwynogod, rhedeg, neidio
- Estyn, ymestyn, amcangyfrif, ymwybyddiaeth ofodol

Cyfleoedd i:

- ddatblygu sgiliau cydsymud a rheolaeth gynyddol
- sefyll a rhedeg ar flaenau eu traed, neidio tuag yn ôl, hercian tuag ymlaen
- gurando ar gyfarwyddiadau ac ymateb yn barod iddynt

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwysrau
- bod y plant yn gweithio mewn 'gerddi'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu sgiliau cydsymud a rheolaeth gynyddol?
- Yn sefyll ac yn rhedeg ar flaenau ei draed, yn neidio tuag yn ôl, yn hercian tuag ymlaen?
- Yn gurando ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb yn barod iddynt?

gan amlaf

weithiau

Anogwch y plentyn i:

- ymarfer gweithrediadau gan gyfeirio at y Cardiau Sgiliau Technegol
- ymarfer gweithrediadau o fat i fat, neu o ardal fwy i ardal fwy
- cadw'r pellter rhwng y smotiau'n fyr iawn i ddechrau
- trafod beth mae'n burriadu ei wneud yn gyntaf, yna cwblhau'r dasg drwy gopio/dilyn plentyn mwy medrus neu ymarferwr
- gosod y smotiau yn y manau lle'r hoffai eu cael
- cario gwrthrychau ysgafn iawn i ddechrau

Anogwch y plentyn i:

- osod y smotiau'n fwyfwy pell oddi wrth ei gilydd yn raddol
- dilyn llwybr penodol – siapiau 2D syml
- dilyn patrymau mwy cymhleth
- archwilio cario gwrthrychau trymach, mwy lletchwith
- amcangyfrif faint o smotiau y byddai arno'u hangen mewn amgylcheddau gwahanol

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Mathemategol: Mesurau ac arian – defnyddio unedau ansafonol a safonol
- Datblygiad Mathemategol: Siâp, safle a symud – dilyn a rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer symudiadau syml